Archwilio Cymru
Audit Wales

1 Cwr y Ddinas / 1 Capital Quarter
Caerdydd / Cardiff
CF10 4BZ
Tel / Ffôn: 029 2032 0500
Fax / Ffacs: 029 2032 0600
Textphone / Ffôn testun: 029 2032 0660
info@audit.wales / post@archwilio.cymru
www.audit.wales / www.archwilio.cymru

Mr Duncan Hall
Cyngor Sir Ceredigion
Canolfan Rheidol
Rhodfa Padarn
Llanbadarn Fawr
Aberystwyth
Ceredigion
SY23 3UE

**Cyfeirnod:** DO23-08

**Dyddiad cyhoeddi:** 21 Tachwedd 2023

Annwyl Duncan

# Ffurflen Datganiad Blynyddol Awdurdod Harbwr Ceredigion 2022-23

Yn unol â gofynion Adran 12 ac Adran 13 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 ac Adran 42 o Ddeddf Harbyrau 1964 rwy'n rhoi fy adroddiad ar y Ffurflen Flynyddol sy'n ymwneud â gweithgareddau harbwr yr ydych wedi'u paratoi mewn perthynas ag Awdurdod Harbwr Ceredigion ar gyfer y flwyddyn yn diweddu ar 31 Mawrth 2023.

Rwyf wedi ymgymryd â'n gwaith yn unol â'r gweithdrefnau penodedig a gyhoeddwyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru. Yn gryno, mae'r gweithdrefnau hyn yn ei gwneud yn ofynnol i ni ystyried a yw'r Ffurflen Flynyddol sy'n ymwneud â gweithgareddau'r harbwr:

- Wedi'i paratoi ar sail resymol (er enghraifft, mae'r ffigurau'n cytuno â'r cofnodion sylfaenol y cawsant eu paratoi arnynt ac maent yn gyson â'r trafodiadau a gofnodwyd yng nghyfrifon statudol yr awdurdod lleol am yr un cyfnod adrodd); ac
- Wedi'i castio'n gywir.

## Adroddiad archwilio ar y Ffurflen Flynyddol yn ymwneud â gweithgareddau harbwr Harbwr Ceredigion am y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2023

Yn amodol ar gymeradwyo Ffurflen Flynyddol 2022-23 gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, byddwn yn gallu cadarnhau'r canlynol:

"Ar sail fy adolygiad, yn fy marn i, nid oes unrhyw faterion wedi dod i'm sylw gan roi achos pryder bod y wybodaeth a adroddwyd yn y Ffurflen Flynyddol hon mewn unrhyw ffordd berthnasol:

- nad yw wedi'i baratoi yn unol ag arferion priodol;
- nad yw'r ddeddfwriaeth a'r gofynion rheoleiddiol perthnasol wedi'u bodloni; a
- nad yw'n anghyson â threfniadau llywodraethu'r Harbwr."

## Materion eraill

Nid oes gennym unrhyw faterion eraill y mae'n rhaid i ni eu dwyn i'ch sylw.

Yn gywir



Derwyn Owen

ar gyfer ac ar ran Adrian Crompton, Archwilydd Cyffredinol Cymru